



**Cyfarfod Bwrdd CHC
ddydd Llun 28 Ionawr
yn swyddfeydd CHC, Caerdydd**

Cyfarfu Bwrdd CHC ar 28 Ionawr 2019 yn swyddfeydd CHC yng Nghaerdydd. Roedd cworwm yn y cyfarfod gyda 10 aelod bwrdd yn bresennol yn ogystal ag aelodau Uwch Grŵp Rheoli CHC. Roedd y rhai'n bresennol yn cynnwys: Debbie Green (Tai Coastal), Paul Roberts (Newydd), Scott Sanders (Linc-Cymru), Steve Higginson (Tai Sir Fynwy), Matt Brown (WCVA), Andrew Martyn-Johns (Annibynnol - Cadeirydd), Kath Palmer (Hafod), Andrew Vye (Grŵp Pobl), Sian Thomas (Grŵp Cartrefi Cymunedol Cynon Taf) a Paula Kennedy (Cartrefi Melin).

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Andrew Bowden (Cartrefi Conwy) a Jonathan Huish (Trivallis).

Mae'r dilynol yn grynodedb o'r eitemau a drafodwyd a'r penderfyniadau allweddol a gymerwyd yn y cyfarfod:

Cyfrifon Rheolaeth Chwarter 3 2018-19: Adroddwyd perfformiad cadarnhaol ar ddiwedd chwarter 3, gyda gwarged o £46k ar gyfer pob gweithgaredd, o gymharu â gwarged yn y gyllideb o £29k. Mae hyn yn bennaf fel canlyniad llwyddiant ein dwy cynhadledd fwyaf - Y Gynhadledd Tai Fawr a'r Gynhadledd Flynyddol. **Canlyniad: Cafodd Cyfrifon Rheolaeth Chwarter 3 eu cymeradwyo gan y Bwrdd.**

Cynnydd Cost Byw: Cyflwynodd yr Uwch Grŵp Rheoli nifer o opsiynau i'r Bwrdd, yn seiliedig ar ddata a gasglwyd gan Turning Point HR. Amlinellodd yr adroddiad y cyd-destun economaidd presennol, y cynnydd cyfartalog mewn enillion, yn ogystal â'r cynnydd Cost Byw sy'n cael ei ystyried gan ein haelodau. **Canlyniad: Cafodd cynnydd Cost Byw o 2% i'w weithredu o fis Ebrill ei gymeradwyo gan y Bwrdd.**

Cynllun Corfforaethol 2019-22: Cyflwynwyd drafft terfynol y Cynllun Corfforaethol i'r Bwrdd, yn cynnwys cynlluniau ar gyfer Cynllun Cyflenwi blynyddol, i nodi sut bydd CHC yn cyflenwi ei Gynllun Corfforaethol yn ogystal â Chynnig ffurfiol i Aelodau, sy'n dangos yr hyn y gall ein haelodau ddisgwyl ei weld. **Canlyniad: Cafodd y Cynllun Corfforaethol ei lofnodi gan y Bwrdd a chaiff ei lansio ym mis Ebrill.**

Cyllideb 2019/20, 2020/21 a 2021/22: Bydd amcanestyniadau'r gyllideb ar gyfer y tair blynedd nesaf yn golygu y bydd angen codeiddio polisi cronfeydd wrth gefn CHC, fel canlyniad i gynnydd mewn ffioedd aelodaeth. Bydd hyn yn cydbwysu'r buddsoddiad mewn gwasanaethau a sicrhau fod lefelau cronfeydd wrth gefn yn parhau'n ddigonol. **Canlyniad: Cymeradwydd y Bwrdd ychwanegu £55k at y cronfeydd wrth gefn bob blwyddyn am y tair blynedd nesaf.**

Prif Awdurdod Tân: Yn dilyn trafodaethau gydag aelodau a Llywodraeth Cymru, cyflwynodd Will Atkinson a Sarah Scotcher bapur ar sefydlu Brif Awdurdod Tân. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cyngor ac arweiniad cadarn i aelodau ar feysydd allweddol diogelwch tân. **Canlyniad: Cymeradwydd y Bwrdd wireddu cynllun Prif Awdurdod Tân.**

Bwrdd-i-Fwrdd gyda'r Bwrdd Rheoleiddiol: Yn dilyn y cyfarfod, cyfarfu Bwrdd Rheoleiddiol Cymru a Bwrdd CHC i drafod sut y gall y ddau weithio gyda'i gilydd i sicrhau sector cryf a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf yn swyddfeydd CHC yng Nghaerdydd ar 11 Ebrill.